Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Fras a Gêm Springwater Lakes

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Pysgota ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheoli Pysgodfeydd

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Fras a Gêm Springwater Lakes

Cyflwyniad a Chefndir

Symudodd Mr a Mrs Bexon i Springwater Lakes ger Llanymddyfri yn y Canolbarth naw blynedd yn ôl. Ar yr adeg pan brynasant y bysgodfa nid oedd yno ond dau lyn a dyrnaid o gaeau, ond gallent weld y potensial am ei datblygu. Cyn hir yr oeddent wedi ychwanegu dau lyn arall a sefydlu cyfleusterau ar y safle ar gyfer gwersylla a charafanio. Adeiladwyd siop gêr ac abwyd pysgota fach yn fuan wedyn. Gwlad y pysgod gêm yw Cymru'n draddodiadol, ond y nod yn Springwater oedd creu canolfan o'r radd flaenaf ar gyfer pysgota bras, a thrwy hynny ddenu rhychwant eang o bysgotwyr a'u teuluoedd i'r ardal. Erbyn hyn, a'r busnes wedi hen ennill ei dir, fe ellir gweld mwy na 100 o bobl ar y safle ar unrhyw adeg. Mae'r safle'n denu ymwelwyr ar gyfer nifer o weithgareddau. Yn ogystal â physgota mae ymwelwyr yn dod i wylio adar neu ddim ond i fwynhau'r llonyddwch distaw.

Ffynhonnell: J. Morgan, Prifysgol Abertawe

Nod y cwmni

Y nod ers y cychwyn oedd troi'r bysgodfa'n fusnes hyfyw a thrwy hynny wireddu newid gyrfaol i'r perchnogion.

Arferion

Y nod yn Springwater Lakes yw parhau i wella hyfywedd economaidd y safle tra'n cynnal ansawdd uchel yr amgylchedd o'i gwmpas sydd mor hanfodol bwysig i lwyddiant y busnes.

Porthir y llynoedd gan ffynnon, ac mae'r gorlif ohono'n rhedeg i'r nant gerllaw. Mae'n bosib agor cyswllt dŵr rhwng llyn dau a tri, a hefyd rhwng llyn un a phedwar, ond nid oes cysylltiad parhaol rhwng y pedwar llyn. O ganlyniad mae'n bosibl ynysu a rheoli unrhyw broblemau megis heintiau, a'u rhwystro rhag ymledu o'r naill lyn i'r llall.

Mae arferion rheoli'r gwahanol lynnoedd yn amrywio, gan gymryd i ystyriaeth y gwahanol arddulliau pysgota. O gwmpas llynnoedd y pysgod bras mae'r gwair yn cael ei dorri'n fras i sicrhau mynediad rhesymol rwydd i bysgotwyr. Ond o gwmpas llynnoedd y brithyllod mae'r glaswellt yn cael ei gadw'n gymharol fyr. Mae'n cael ei dorri hefyd mewn rhai ardaloedd eraill, megis o gwmpas y dderbynfa ac ar hyd y lôn fynediad. Mae'n bosibl rheoli lefel y dŵr ym mhob llyn, ond ni fu raid i Mr Bexon newid y lefelau dŵr erioed gan eu bod yn amrywio mor ychydig.

Amgylchedd

Mae gan Mr a Mrs Bexon ymagwedd gadarnhaol iawn tuag at yr amgylchedd a chadwraeth. Mae'r ddau ohonynt yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y safle i'r bywyd gwyllt lleol, ac maent yn credu bod hyn yn ystyriaeth bwysig hefyd i o leiaf 50% o'u pysgotwyr. Mae'r rhywogaethau a welir yn rheolaidd ar y safle'n cynnwys ieir dŵr, crehyrod gleision, mulfrain a phïod glas y dŵr. Gwelir barcudiaid cochion a boncathod yn aml uwchben, ac mae gwyddau Canada'n nythu ar Lyn 1. Mae olion traed dyfrgwn i'w gweld o bryd i'w gilydd ar hyd glannau'r nant, ac mae Mr Bexon wedi gweld ffwlbart.

Mae'r perchnogion yn awyddus hefyd i archwilio'r posibilrwydd o weithio at ennill dyfarniad amgylcheddol megis gwobr David Bellamy neu'r Ddraig Werdd.

Y Prif Symbylyddion

- Yr angen i wella hyfywedd economaidd tra'n cynnal diddordeb a boddhad personol
- Mae angen i'r busnes ehangu, a bydd cydweithrediad gan adran gynllunio llywodraeth leol yn allweddol bwysig yn hyn o beth
- Mae hysbysebu a marchnata'n hanfodol bwysig i'r busnes hefyd, ac mae'r perchnogion wedi bod wrthi'n sefydlu grŵp Premier Fisheries Gorllewin Cymru gyda golwg ar gynyddu cyfleoedd i farchnata'r bysgodfa, ac yn arbennig yr agwedd bysgota fras.

Buddion i'r Busnes

- Mae pysgotwyr hamdden yn mynnu cael profiad pysgota o ansawdd uchel mewn amgylchiadau naturiol digyffwrdd. Mae'r sylw a roddir i ddiogelu'r amgylchedd lleol yn Springwater Lakes yn sicrhau bod eu cwsmeriaid yn mwynhau eu profiad ac yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Mae gweithio mewn partneriaeth â physgodfeydd eraill yn cynyddu cyfleoedd marchnata
- Mae amrywgyfeirio'n cynyddu'r incwm a ddaw o weithgareddau pysgota.

Buddion Amgylcheddol

- Mae llynnoedd sefydlog eu cydbwysedd, wedi'u porthi gan ffynnon, yn cynnal bywyd gwyllt amrywiol
- Mae'r drefn dorri gwair sensitif yn hyrwyddo ffawna lleol
- Mae ymagwedd oddefgar tuag at ysglyfaethwyr a thechnegau ataliadol sensitif yn cadw'r effeithiau ar y bywyd gwyllt lleol mor isel â phosibl.

Heriau'r Dyfodol

- Cynnal y cynnydd yn nifer y cwsmeriaid yng ngwyneb cystadleuaeth gynyddol gan ganolfannau pysgota eraill
- Parhau i ddatblygu llety gwyliau fel rhan o'r busnes.